ATODIAD A

CERDDED A DARGANFOD – Y CYNLLUN

MENTER FACHWEN

CYFLWYNIAD

Mae'r syniad sylfaenol tu ôl i'r cynllun wedi bod yn freuddwyd gennym ers cwpl o flynyddoedd eisoes ac yn fenter sydd wedi ei seilio ar brosiectau tebyg yng Nghanada. Datblygodd y syniad yn gyflym iawn yn Gwanwyn 2011 pan lwyddodd y ffotograffydd, darlunydd a'r awdur lleol Gareth Roberts cael cefnogaeth gan gynllun "World of Difference" Vodafone a threulio tri mis yn datblygu'r syniad. Yn ystod y cyfnod hwn cafodd y cyfle i dreialu sawl syniad newydd ac arloesol mewn ysgolion a chymunedau trwy Gonwy, Gwynedd a Môn.

Pwrpas sefydlu y math gynllun yw annog bobl o bob oedran a gallu i gerdded a darganfod (gyda phwyslais ar y 'darganfod') y tirwedd o'n cwmpas er lles ein hiechyd, i gymdeithasu, mwynhau ac i fagu diddordeb mewn archaeoleg, hanes, natur gwyllt, daeareg a.y.b. bydd y prosiect yn canolbwyntio ar y rhwydwaith llwybrau cyhoeddus (ac eraill sydd o dan 1000 o droedfeddi yn gyffredinol).

Er mai mewn adeilad ar Stryd Fawr Llanberis bydd y prif adeilad, bydd 'canghennau wybodaeth' (mewn cydweithrediad ac elusennau a chymdeithasau eraill a gweithgareddau trwy Wynedd, Chonwy a Môn. Bydd y gweithgareddau hyn wedi ei anelu at bobl o bob gallu a chefndir, ifanc ac nid cweit mor ifanc, bobl gydag anableddau, bobl sydd wedi cyfeirio at 'gerdded er lles eu hiechyd a.y.b. fel daw yn amlwg yn y ddogfen fer hon mae hefyd cynlluniau am brosiectau digidol i fagu diddordeb mewn cenhedlaeth newydd o bobl a'r cyhoedd bydd yn gallu cyfrannu eu gwaith i'r cynllun, os yn bobl leol neu beidio.

Ar hyn o bryd rwyf yn cyd-weithio gyda menter Fachwen i sefydlu'r Ganolfan mewn adeilad ar Stryd Fawr Llanberis. Mae'r adeilad wedi ei brynu yn barod ond pwysleisiaf mai'r bwriad yw sefydlu gweithgareddau a changhennau wybodaeth eraill trwy Wynedd, Môn a Chonwy. Yn ogystal â'r Ganolfan bydd caffi yn yr adeilad yn Llanberis gyda gwasanaethau eraill bydd yn cael eu rheoli rhwng Menter Fachwen a'r ganolfan.

PROSIECT CERDDED A DARGANFOD

LLEOLIADAU

- Caffi a gwybodaeth: Caxton House, Stryd Fawr, Llanberis
- Canolfan Cymunedol: Dinorwig a Chwm y Glo
- Canghennau: Swyddfeydd Bost, Tafarndai, Caffis, Canolfannau Cymdeithasol, Canolfannau ac Atyniadau Twristiaeth yng Ngwynedd Môn a Chonwy.

AMCANION A DEFNYDDIAU

- Caffi/Canolfan wybodaeth - Llanberis
- Caffi cartrefol gyda chasgliad enfawr o fapiau a llyfrau cerdded
- Gwybodaeth a manylion am weithgareddau cerdded yng Ngogledd Orllewin Cymru
- Delweddau diweddaraf 'Doppler radar' (Tywydd)
- Rhaglen brysur drwyr flwyddyn o deithiau cerdded gyda themâu

- Cyhoeddi mapiau
- Mynediad i fapiau a gwybodaeth ar gyfrifiaduron
- Cyhoeddi dogfennau eraill (fel cyfres 'Helfa Drysor Fforograffeg)
- Rhaglen o sgyrsiau a ffilmiau
- Tîm cerdded a chodi arian i elusennau: heriau sydd yn cael ei gosod gan y cyhoedd

GWYBODAETH AR LEIN

- Creu safle we sydd yn Ganolfan Wybodaeth nid yn unig i holl weithgareddau'r ganolfan ond yn wasanaeth hysbysebu pob gweithgaredd cerdded yn y tair Sir. Bydd y wybodaeth yn cael ei ail-drefnu yn wythnosol

CANOLFAN DINORWIG

- Trefnu Gŵyl gerdded Blynyddol Gogledd Cymru ar y cyd a 'Sefydliad Prydeinig y Galon' - i gychwyn yn Mis Gorffennaf 2012
- Trefnu pob gweithgaredd: sgyrsiau, teithiau cerdded a phrosiectau addysg rhywle yn y Sir
- Hyfforddi pobl ifanc i greu ac arwain teithiau cerdded
- Sgyrsiau
- Cydlynu rhwydwaith o fannau wybodaeth mewn bwytfeydd, swyddfeydd post, tafarndai a.y.b. yng Ngogledd Gorllewin Cymru

PROSIECT CERDDED AT IECHYD

- Cydlynu (gyda'r gwasanaeth iechyd) rhaglen o weithgareddau i bobl sydd wedi eu cyfeirio at Rhaglenni Cadw'n heini gan feddygon
- Cydlynu rhaglen o weithgareddau gydag asiantaethau sydd yn paratoi gwasanaethau i bobl ac anabledd dysgu
- Cydlynu rhaglen o weithgareddau gydag asiantaethau sydd yn paratoi gwasanaethau i bobl ac anableddau neu anawsterau corfforol
- Cydlynu rhaglen o weithgareddau gydag asiantaethau sydd yn paratoi gwasanaethau i bobl mewn anfantais
- Creu rhaglen o weithgareddau i rwpia penodol: mamau a phlant er enghraifft

PROSIECTAU ADDYSG

- Ymweld ag ysgolion gyda sioe sleidiau sydd yn dod a hanes lleol yn fyw: i fagu diddordeb yn y disgyblion i fynd i gerdded a darganfod eu cynefin
- Cyhoeddi pecynnau addysg
- Cydlynu gwyliau cerdded i ysgolion a'u cymunedau
- Trefnu nosweithiau 'Darganfod Hanes Lleol' mewn ysgolion
- Annog ysgolion a disgyblion i greu teithiau cerdded a mapiau eu hunain

TWRISTIAETH

- Manteisio ar y safle ar y stryd yn Llanberis fel Brif Atyniad i Dwristiaid
- Cydlynu rhaglen o weithgareddau gyda cwmni 'celticos'
- Trefnu gweithgareddau yn arbennig yn y dair Sir yn ystod y tymhorau gwyliau
- Cydweithio gyda'r Ganolfan Wybodaeth i dwristiaid

IT

- Datblygu gwasanaeth digidol a thechnegol fel y 'FAB MAP APP (Gwasanaeth mapio ar iPhones syn seiliedig ar rwydwaith llwybrau cyhoeddus)
- Datblygu gwasanaeth mapio ar lein
- Datblygu rhwydwaith lle bu'r cyhoedd, bobl ifanc a'r ysgolion yn gallu cyfrannu tuag at bas-data o wybodaeth a delweddau i ychwanegu i'r mapiau digidol
- Datblygu teithiau 'QR'
- Datblygu rhaglenni 'LAYAR' ,'ANDROID', a 'ACCELEROMETER'
- Datblygu teithiau 'GEOCACHING' hanesyddol a 'Helfeydd Trysor ar ffonau symudol

GWASANAETHAU ERAILL

- Cynllunio llwybrau newydd (rhai gyda themau hanesyddol) gyda Llywodraeth Leol a Sustrans
- Cynnig am drwyddedau cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus ar y cyd a 'Menter Fachwen'
- Hyfforddi arweinwyr cerdded newydd
- Creu grŵp 'Codi Arian' at elusennau eraill. Grŵp bysa'n cerdded sialensiau wedi ei gosod gan y cyhoedd i godi arian i elusennau

Menter Fachwen
Tŷ Llundain
Cwm y Glo
Caernarfon
Gwynedd
LL55 4DT.

01286 872014

Gareth Roberts 0-7867 810576

Mehefin 2012